



Llais Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru
The Voice of Cyngorau Cymuned a Threfin Wales

Nodyn Datblygu Ymarfer 6

Polisiâu a Grymoedd

Dyddiad Cyhoeddi Awst 2024

Dyddiad Adolygu Awst 2025

Mae'r wybodaeth hon yn eiddo i Un Llais Cymru trwy hawlfraint. Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer aelodau Un Llais Cymru yn unig. Dylech gysylltu ag Un Llais Cymru os ydych yn bwriadu dosbarthu'r wybodaeth hon y tu allan i'ch Cyngor

Lyn Cadwallader BA(Hons), PGDipHsg, DBA, PGDipLOPS, Chartered MCIH
Prif Weithredwr/Chief Executive www.onevoicewales.org.uk

Nodyn Datblygu Ymarfer 6 Un Llais Cymru

Polisiâu a Grymoedd

Canllaw syml i Gyngorau Cymuned a Thref

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gwyno
1. Rhagarweiniad			
<p>1.1 Mae Cyngorau Cymuned a Thref yn cyflawni llawer o swyddogaethau.</p> <p>1.2 Mae rhai yn ddyletswyddau, y mae'n <i>rhaid</i> eu cyflawni. Mae rhai yn rymoedd, y gellir eu defnyddio.</p> <p>1.3 Mae'r nodyn hwn yn amlygu ac esbonio rhai o'r</p>	<p>Mae'n rhaid i gyngorau ofalu eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaethol ac unrhyw ganllawiau statudol cysylltiol.</p>	<p>Dylech benderfynu a yw'r cam rydych yn ei gymryd yn rym neu ddyletswydd.</p> <p>Gwnewch yn siwr fod gennych y grymoedd i weithredu. Os oes angen, gofynnwch am gyngor ar y grymoedd sydd gennych gan eich Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru :</p> <p>Alun Harris (Canolbarth a Gorllewin)</p>	<p>Cyn ichi gychwyn prosiect.</p> <p>Gofynnwch am gyngor os oes angen:</p> <p>aharries@unllaicymru.cymru</p> <p>pegan@unllaicymru.cymru</p> <p>mmulcahy@unllaicymru.cymru</p> <p>mabowain@unllaicymru.cymru</p>

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gwyno
dyletswyddau a grymoedd hyn.		Paul Egan (De Orllewin) Maria Mulcahy (De Ddwyrain) Mel ab Owain (Gogledd)	

ON Mae llawer o ddeddfau, rheoliadau a gweithdrefnau sy'n rheoli gweithgarwch Cyngorau Cymuned a Thref. Mae tu hwnt i gwmpas canllawiau o'r math yma i gynnig sylw ar amgylchiadau unigol.

Dylid trafod cwestiynau ynghylch sefyllfaoedd unigol gyda'r Swyddog Datblygu priodol (gweler uchod).

Gall Swyddogion Datblygu roi fersiwn ddiweddaraf nodiadau materion cyfreithiol perthnasol i Gyngorau pan maent yn berthnasol i ymholiad.

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
2. Polisiâu a gweithdrefnau			
2.1 Mae Atodiad 1 yn rhestru rhai o'r prif drefniadau llywodraethol ac ariannol y dylai Cynghorau eu gwneud.	<p>Cydymffurfio ag arfer da a bodloni unrhyw ofynion statudol.</p> <p>Mae Atodiad 1 yn cynnwys dolenni i ganllawiau statudol perthnasol.</p>	Mae Un Llais Cymru yn awgrymu y dylid adolygu'r rhain yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.	Cyfarfod Blynyddol y Cyngor
2.2 Mae polisiâu eraill a ddylai fod gennych ac y dylech eu hadolygu bob blwyddyn. Esbonnir llawer ohonynt yn y Canllaw i Ymarferwyr (Llywodraethiant ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru),	Cydymffurfio ag arfer da a bodloni unrhyw ofynion statudol.	<ul style="list-style-type: none"> Dylai'r Cyngor adolygu ei bolisi a chofrestr risg yn flynyddol o leiaf. Ar gyfer rhai cynghorau dylid cymeradwyo strategaeth fuddsoddi ar gyfer y flwyddyn <i>nesaf</i> cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. (Gweler y nodyn isod) 	Yn flynyddol, fel y nodwyd

<ul style="list-style-type: none"> • Bydd archwilwyr yn disgwyl gweld eich ^{**} Polisi a Chofrestr Risg. Bydd eich Datganiad Blynyddol (Honiadau Llywodraethiant) yn holi amdano. • Mae'n rhaid i Gyngorau a chanddynt fuddsoddiadau hirdymor dros £500k baratoi polisi buddsoddi a ^{**} <u>strategaeth fuddsoddi flynyddol</u> yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Efallai y byddai cynghorau eraill yn dymuno gwneud hynny fel mater o arfer da. 			
<p>2.3 Mae disgwyl i Gyngorau Cymuned a Thref baratoi a</p>	<p>Cydymffurfio â gofynion statudol a chyflwyno</p>	<p>Felly, rhaid i Gyngorau Cymuned a Thref baratoi adroddiad blynyddol bob</p>	<p>Bob trydedd blwyddyn o 2019 ar</p>

<p>chyhoeddi nifer o adroddiadau –</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Adroddiadau Blynyddol, 2) Bioamrywiaeth (a elwir weithiau'n adroddiad a6) ac, i rai Cynghorau, 3) Cynlluniau Llesiant. (Ile y mae'r gyllideb incwm/gwariant yn fwy na £200k y flwyddyn am 3 blynedd) 	<p>sylwebaeth gydlynus ar weithgarwch strategol a gweithredol.</p> <p>Mae gan gynghorau ddyletswydd i hyrwyddo a chryfhau bioamrywiaeth.</p> <p>Dylech ddefnyddio eich Adroddiad Blynyddol i edrych ymlaen yn ogystal ag yn ôl.</p> <p>Efallai y byddwch am gyfuno eich adroddiadau bioamrywiaeth a Llesiant gyda'ch Adroddiadau Blynyddol i leihau dyblygu a llwyth gwaith.</p>	<p>blwyddyn a'l gyhoeddi cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol wedi diwedd y flwyddyn ariannol.</p> <p>Rhaid cyhoeddi cynllun Bioamrywiaeth bob tair blynedd yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal a chryfhau bioamrywiaeth. Roedd rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf cyn diwedd 2019, ac mae'n rhaid cyhoeddi pob adroddiad wedi hynny cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019.</p>	<p>gyfer Bioamrywiaeth.</p> <p>Yn flynyddol i eraill.</p>
<p>2.4 Y Cod Ymddygiad yw un o'r dogfennau pwysicaf y mae angen ichi eu paratoi. Ceir rhagor o fanylion ym Mhennod 5 y Canllaw Cynghorydd Da, gan gynnwys</p>	<p>Mae gan gynghorau ddyletswydd i fabwysiadu cod ymddygiad. Mae dyletswydd statudol ar Aelodau i gydymffurfio â'r cod a llofnodi datganiad i'r perwyl hwnnw.</p>	<p>Unwaith y mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r cod, byddai'n arfer da ystyried trefnu fod y Cyngor yn cadarnhau'r penderfyniad i fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod bob blwyddyn.</p>	<p>Dylid ystyried mabwysiadu'r Cod yn flynyddol.</p>

<p>manylion am ble i gael gafael ar y model god. Dylai pob Aelod dderbyn copi o'r cod a chael hyfforddiant (fel arfer o fewn chwe mis i ddod yn gynghorydd yn unol â'ch rheolau sefydlog.) Cysylltwch â Wendi Patience yn Un Llais Cymru i drefnu hyfforddiant.</p>	<p>(Atodir model ddatganiad. Mae'r model yn adlewyrchu gofynion statudol. (Atodiad 2)</p>	<p>Dylai pob Aelod lofnodi datganiad i gydymffurfio â'r cod pan maen nhw'n derbyn y swydd yn dilyn etholiad neu gyfetholiad, hyd yn oed os ydynt yn dychwelyd ar ôl cael eu hail-ethol. (Hefyd, mae disgwyl i'r Cadeirydd/Maer lofnodi datganiad derbyn swydd pan gânt eu hethol yn y Cyfarfod Blynyddol)</p> <p>Dylech gadw'r datganiadau mewn lle cyfleus gan y gallai fod eu hangen at ddibenion archwiliadau allanol.</p>	
<p>2.5 Dylech adolygu eich polisi ar Arian Wrth Gefn bob blwyddyn. Bydd y ddolen yn dangos enghraifft ichi. **</p> <p>2.6 Cadwch beth arian wrth gefn ond meddyliwch am sut allant helpu cadw'r praesept i lawr. Darllenwch bennod 22 y Canllaw i Ymarferwyr.</p>			

--	--	--	--

Nid yw'r nodyn hwn yn rhestr hollgynhwysol o'r holl bolisiau a ddylai fod gennych. Mae [Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol](#) hefyd yn cynhyrchu rhestr ddefnyddiol o bolisiau a dogfennau (ar gyfer cyngorau llai yn enwedig) os yw eich Clerc yn Aelod. Gallwch ofyn hefyd i'ch Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru os ydych angen cyngor penodol. Mae Un Llais Cymru hefyd yn gallu darparu nifer o fodel bolisiau ar gyfer aelod cyngorau.

*** Astudiaethau Enghreifftiol o Gyngorau Eraill*

Cam	Pwrpas	Amserlen	Amserlen yn gryno
3. Prif rymoedd			
3.1 Grym Cymhwysedd Cyffredinol (GPOC)	Mae'r grym pellgyrhaeddol hwn yn caniatáu i Gyngorau cymwys wneud unrhyw beth y gallai unigolyn ei wneud yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n rhaid bodloni tri maen prawf, fel yr esbonnir yn y ddolen yn 3.1.	Mae'n rhaid i'r Cyngor basio penderfyniad i gadarnhau ei fod yn bodloni'r meini prawf i ddefnyddio'r GPOC. Mae'n rhaid i hyn gael ei adolygu bob blwyddyn.	Yn flynyddol, ar yr amod fod y Cyngor yn parhau i fodloni'r meini prawf. Os nad yw Cyngor yn gymwys i ddefnyddio GPOC

	<p>ON Diddymwyd y grym llesiant gan Ddeddf Llywodraeth Leol & Etholiadau (Cymru) 2021. Gall unrhyw beth a ddechreuwyd o dan y grym hwn barhau hyd nes y'u cwblhawyd ond ni ellir cychwyn unrhyw beth newydd. Os yw'r cyngor yn dod yn gymwys i ddefnyddio GPOC, dylid defnyddio hwnnw yn hytrach.</p>		<p>mwyach, mae'n rhaid iddo gofnodi ei anghymwysedd yng nghyfarfod blynyddol nesaf 'perthnasol' y Cyngor (ar ôl yr etholiad arferol). Trowch at y Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>
<p>3.2 Deddf Llywodraeth Leol 1972 a137.</p>	<p>Mae'r grym cyffredinol hwn yn caniatáu i Gyngor wario arian at ddibenion penodol nad ydynt yn cael eu hawdurdodi gan ddeddfwriaeth arall. Ceir fformiwla i benderfynu faint all Cyngor ei wario bob blwyddyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi beth yw'r swm.</p>	<p>Mae'n rhaid i'r Cyngor basio penderfyniad <u>bob tro</u> y mae'n dymuno defnyddio'r grym hwn, i gadarnhau fod y gwariant y bwriedir ei wneud o dan y grym hwn yn gymesur â'r budd i'r gymuned (h.y. gweddu i); felly, mae'n rhaid cael cyfatebiaeth rhwng lefel yr arian a werir a maint y budd i bobl leol.</p> <p>Dyma fodel benderfyniad:</p>	<p>Pryd bynnag y defnyddir y grym, mae angen penderfyniad yn gyntaf.</p>

	<p>Os na all y Cyngor ddefnyddio GPOC, mae'n rhaid iddo chwilio am rymoedd penodol eraill, megis y rhai a restrir isod. Os na ellir dod o hyd i rym penodol, gallai ystyried Adran 137, sy'n cael ei ystyried y grym cyfle olaf. Mae hwn yn rhoi'r grym i Gyngor wneud unrhyw beth fydd o fudd i'r gymuned neu drigolion (neu ran ohoni/rhai ohonynt) pan nad oes unrhyw rym penodol arall sy'n berthnasol i'r cam a fwriedir.</p>	<p>“yn sgil y grym a roddwyd gan Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (wedi'i diwygio) a chan farnu fod y gwariant yn bodloni gofynion yr adran honno, cymeradwyir gwariant hyd at £** o ran yr uchod **.”</p>	
<p>3.3 Mae gan Gyngorau lawer o rymoedd, ond dim llawer o ddyletswyddau. Mae'r rhan fwyaf o ddyletswyddau, er nad pob un ohonynt, yn ymwneud â llywodraethiant, megis y ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer</p>	<p>Cydymffurfio â gofynion statudol.</p>		

<p>gweinyddu materion ariannol y Cyngor yn briodol a gofalu fod swyddog yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. (A151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.)</p> <p>3.4 Mae dyletswyddau eraill yn cynnwys dyletswydd i ddarparu rhandiroedd os yw'r cyngor yn barnu fod galw amdanynt, dyletswydd i ystyried effaith penderfyniadau ar leihau troseddu ac anhrefn, a dyletswydd i hyrwyddo a chryfhau bioamrywiaeth. Mae'r Canllaw Cynghorydd Da yn cynnwys mwy o fanylion.</p>			
---	--	--	--

<p>3.5 Dyma rai enghreifftiau o rymoedd statudol a ddefnyddir yn aml i alluogi'ch Cyngor i gymryd nifer o gamau gwahanol er budd y gymuned:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, a.19 yn rhoi'r grym i ddarparu cyfleusterau hamdden o bob math. • Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972, a.145 yn caniatáu darparu adloniant a chefnogaeth i'r celfyddydau, gan gynnwys gwyliau a dathliadau. • Ceir grymoedd eraill sy'n caniatáu darparu goleuadau Nadolig, (Gallai'r grym hwn fod 			<p>Nid oes angen penderfyniad penodol er mwyn defnyddio'r grymoedd hyn, ond efallai y bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer y prosiectau y maent yn cael eu defnyddio ar eu cyfer.</p>
--	--	--	---

<p>yn addas ar gyfer rhai cynghorau, ond nid i lawer o gynghorau bach, pan allai A137 fod yn briodol.) canolfannau cymunedol a nifer o rymoedd gwahanol y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â neu leihau newid hinsawdd.</p>			
<p>3.6 Yn olaf, mae a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn caniatáu i Gyngor wneud unrhyw beth (boed yn golygu gwario, benthyg, neu fenthycu arian neu gaffael neu waredu unrhyw eiddo neu hawliau ai peidio) er mwyn hwyluso'r broses o gyflawni unrhyw rai o'i swyddogaethau, neu sy'n arwain at neu'n gysylltiedig â hynny.</p>	<p>Caniatáu'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau.</p>	<p>Ad doc</p>	<p>Nid oes angen penderfyniad penodol er mwyn defnyddio'r grymoedd hyn, ond efallai y bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer y prosiectau y maent yn cael eu defnyddio ar eu cyfer.</p>

<p>Mae'r uchod ymhlith y grymoedd a ddefnyddir yn gyffredin ond dylid nodi nad yw hon yn rhestr holl gynhwysol o'r holl rymoedd sydd ar gael i gynghorau. Mae'n rhaid i Gyngor fod yn fodlon fod ganddo'r grym i weithredu.</p> <p>Yn yr un modd, ni all y Nodyn Datblygu Arfer hwn gynnig canllawiau cynhwysfawr ar bob darn o ddeddfwriaeth y cyfeirir atynt. Dylai Clercod/Cynghorau droi at bob deddf unigol y cyfeirir atynt i gael dealltwriaeth fanwl o'i darpariaethau.</p> <p>Mae'r <u>Canllaw Cynghorydd Da</u> yn cynnwys rhestr helaeth o'r grymoedd sydd ar gael. Mae croeso hefyd ichi gysylltu â'ch Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru os ydych angen cyngor penodol. Hefyd, gall Cynghorwyr fynychu ein gweminarau er mwyn cael golwg fanylach ar waith Cynghorau Cymuned a Thref.</p>			

Rhai awgrymiadau allweddol:

- Wrth ystyried a ddylid gweithredu neu wneud penderfyniad arbennig, dylai Cynghorau ystyried (a) A yw'r arian gennym, (b) A yw'r grymoedd gennym ac (c) Pa fudd ddaw i'r gymuned.

Mae ein [Nodyn Datblygu Arfer cyntaf](#), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, yn rhoi sylw i faterion ynghylch llunio cyllideb ac adnabod blaenoriaethau gwario. Bydd hynny'n eich helpu i benderfynu a yw'r arian gennych.

Bydd y Nodyn hwn yn eich helpu i benderfynu a yw'r grymoedd gennych.

- Hefyd, ar gyfer penderfyniadau o bwys arbennig, dylech ystyried a ydych am ymgynghori â'r cyhoedd. Gellir gwneud hynny mewn ffordd generig trwy, dyweder [Adroddiad Blynyddol](#) da, neu'n rhan o brosiect penodol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai cyrff darparu grantiau yn disgwyl gweld tystiolaeth o ymgynghori cyhoeddus ar gyfer eich prosiect neu gytundeb gan grwpiau cymunedol i ddarparu cefnogaeth a gwirfoddolwyr. Meddyliwch am faterion fel [cynhwysiant, mynediad, a chyfranogiad](#).
- Mae eich Rheolau Sefydlog a'ch Rheoliadau Ariannol yn hollbwysig. Dyma rai enghreifftiau gan [Gyngor Tref Llanelli](#), ynghyd ag enghreifftiau o bolisiâu pwysig eraill.
- Yn olaf, os nad ydych yn siwr, gofynnwch.

Nid oes neb yn gwybod popeth. Bydd Clercod profiadol fel arfer yn hapus i helpu Clercod newydd trwy gynnig cyngor, enghreifftiau, ac astudiaethau enghreifftiol. Dylai Cyngorau annog y Clerc i ymuno â'r [Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol](#), sy'n gallu cynnig cefnogaeth a chyngor. Mae croeso hefyd ichi holi eich Swyddog Datblygu yn Un Llais Cymru am gyngor. Mae eu manylion uchod.

Dylai aelodau gofrestru ar gyfer un o'r nifer fawr o [foddlau hyfforddiant](#) a ddarperir gan Un Llais Cymru. Mae croeso i Glercod gymryd rhan hefyd.

Sylwer: Mae Astudiaethau Enghreifftiol o Gyngorau eraill a gynhwysir yn y Nodyn hwn er cymorth ac arweiniad yn unig. Efallai y byddant yn cynorthwyo Cyngorau i adolygu neu gadarnhau fod eu polisiâu eu hunain ac ati yn bodloni gofynion statudol.

Trefniadau i'w hadolygu'n flynyddol

- i. Adolygu unrhyw drefniadau dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau, neu staff Cynghorau eraill.
- ii. Adolygu cylch perwyl ar gyfer pwyllgorau.
- iii. Penodi aelodau ar bwyllgorau sy'n bod yn barod.
- iv. Penodi unrhyw bwyllgorau newydd.
- v. Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol priodol. Bydd archwilwyr yn gofyn i gael eu gweld. ON Mae rhai gofynion yn statudol, megis y ddyletswydd i gael rheol sefydlog ar gyfer contractau i gyflenwi nwyddau a deunyddiau
- vi. Adolygu meini prawf cymhwysedd ar gyfer defnyddio'r [grym cymhwysedd cyffredinol \(Pennod 1\)](#).
- vii. Adolygu a mabwysiadu [adroddiad blynyddol](#) y Cyngor ([Pennod 4](#)).
- viii. Adolygu a mabwysiadu [cynllun hyfforddiant](#) y Cyngor ([Pennod 5](#))
- ix. Adolygu trefniadau (gan gynnwys cytundebau cyfreithiol) gydag awdurdodau lleol eraill, cyrff nid er mwyn elw, a busnesau.
- x. Adolygu cynrychiolaeth ar neu waith gyda chyrff allanol a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl.
- xi. Adolygu [rhestr o dir ac asedau eraill](#) gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa.
- xii. Cadarnhau trefniadau ar gyfer [gwarant yswirant](#) ar gyfer pob risg yswiradwy.
- xiii. Adolygu tanysgrifiadau'r Cyngor a/neu staff i gyrff eraill.
- xiv. Adolygu gweithdrefn gwynion y Cyngor.
- xv. Adolygu polisiâu, gweithdrefnau ac arferion y Cyngor o ran ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data.
- xvi. Adolygu polisi'r Cyngor ar gyfer delio â'r wasg/y cyfryngau.
- xvii. Adolygu polisiâu a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor.

(Adolygu eich polisi tâl bob blwyddyn. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn mynnu fod cyflogwyr yn cyhoeddi polisiâu ar arddewisiadau ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Gronfa'n awgrymu y

dylai cyflogwyr adolygu eu polisïau arddewisiadau bob tair blynedd o leiaf. Sylwer efallai na fydd y rhan fwyaf o gynghorau bach yn darparu ar gyfer y cynllun pensiwn hwn.)

- xviii. Pennu amser a lleoliad cyfarfodydd arferol y Cyngor hyd at a chan gynnwys cyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.
- xix. Adolygu gwariant y Cyngor o dan a.137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (os yn berthnasol).

Dyma rai pwyntiau allweddol i'w cofio ar gyfer y ddeddfwriaeth bellgyrhaeddol hon:

- Mae a.137 yn caniatáu i gynghorau wario arian yn amodol ar y terfyn statudol, a ddisgrifir uchod (3.1). Dylid adrodd y ffigwr hwn yn flynyddol i'r Cyngor.
- Ni ellir defnyddio a.137 os oes grym statudol mwy penodol y gall y Cyngor ddibynnu arno nac i oresgyn cyfyngiad a bennwyd gan rym arall. Argymhellir fod eich Cyngor yn nodi hyn. Rhaid deall y grymoedd sydd ar gael.
- Ni ellir defnyddio a.137 i wneud rhywbeth y mae deddf arall yn ei wahardd. Er enghraifft, mae a..8(1) (i) a (k) Deddf Llywodraeth Leol 1894, yn atal cyngor rhag gwario arian ar eiddo sy'n gysylltiedig â gwaith yr eglwys neu a gedwir ar gyfer elusen eglwysig. Argymhellir fod eich Cyngor yn nodi hyn.
- Yn absenoldeb grym mwy penodol neu gyfyngiad arall, gall Cyngor ddibynnu ar a.137 ar yr amod ei fod yn fodlon fod budd uniongyrchol i'r gymuned neu ran o'r gymuned (nid unigolyn), fel a ddisgrifir uchod. Mae'n rhaid i'r budd fod yn gymesur â'r gwariant a wneir. Argymhellir fod eich Cyngor yn nodi hyn.

Pwyntiau pwysig eraill i'w cofio:

- Gellir defnyddio a.137 i gefnogi elusennau ond dim ond yn y DG, ac nid elusen s'n gweithredu dramor. Nid oes rhaid i gyfraniadau i elusennau gynnig budd uniongyrchol i ardal y Cyngor.
- Ni ellir ond neilltuo arian ar gyfer digwyddiadau yn y DG o dan rai amgylchiadau penodol yn unig. Gwiriwch y ddeddf. (a.137(3))

- Cadw cyfrif ar wahân o wariant o dan a.137. Cofiwch wneud penderfyniad bob tro y defnyddir a.137.

Adran 83, Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Datganiad Derbyn Swydd

Yr wyf i ... (1) ..., a minnau wedi fy ethol i swydd ... (2) ... (3) ..., yn datgan fy mod yn cymryd arnaf fy hun y swydd honno, ac y byddaf yn cyflawni dyletswyddau'r swydd yn briodol ac yn ffyddlon hyd eithaf fy marn a'm gallu.

Yr wyf yn ymrwymo i barchu'r cod ymddygaidd a ddisgwylir oddi wrth aelodau ac sy'n bodoli am y tro ac a allai gael ei adolygu o dro i dro... (4) ...

Llofnodwyd: Dyddiad:

Cafodd y datganiad hwn ei wneud a'i lofnodi ger fy mron,

Llofnodwyd:

Clerc a Swyddog Priodol y cyngor. (5)

- (1) Mewnosoder enw'r person sy'n gwneud y datganiad
- (2) Mewnsoder "aelod" new "Maer" fel y bo'n briodol.
- (3) (4) Mewnsoder enw'r awdurdod y mae'r person sy'n gwneud y datganiad yn aelod ohono neu'n Faer yr awdurdod.
- (5) Pan wneir y datganiad gerbron person arall a awdurdodwyd gan adran 83(3) new (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, dylid datgan, yn lle hynny, yn rhinwedd pa swydd y mae'r person hwnnw'n derbyn y datganiad.

